

COED A GWRYCHOEDD

LAND

ECO  **CHURCH**
AN A ROCHA UK PROJECT



ALLCHURCHES TRUST LIMITED®
OWNERS OF ECCLESIASTICAL INSURANCE GROUP

www.ecochurch.arocha.org.uk



LAND

Coed a gwrychoedd

PAM?

Mae coed a gwrychoedd yn nodweddion allweddol o'n tirwedd Brydeinig ac, yn aml iawn, maen nhw'n darparu cynefinoedd hynafol mewn llawer o fynwentydd eglwysi. Cafodd rhai eu sefydlu o fewn ffiniau'r tir claddu gwreiddiol, tra bo eraill wedi eu plannu yn y 18fed ganrif. Maen nhw nid yn unig yn brydferth a diddorol ynddynt eu hunain, ond maen nhw hefyd yn gynefinoedd pwysig i amrywiaeth fawr o fywyd gwyllt, yn cynnwys draenogod, pathewod, nadroedd y gwair, adar, gwenyn, glöynnod byw, gwyfynnod a nifer o drychfilod.

Mae coed a gwrychoedd yn gwella'r amgylchedd dynol yn enfawr hefyd. Maen nhw'n ein hoeri ni yn yr haf ac yn rhoi cysgod i ni rhag y gwynt yn y gaeaf; maen nhw'n gostwng llygredd, yn casglu carbon ac yn lleihau llifogydd. Maen nhw'n gwella ein hiechyd meddwl a'n lles, yn creu amgylchedd deniadol ac yn ein hysbrydoli i addoli Duw pan welwn waith ei ddwylo yn y greadigaeth: <https://www.woodlandtrust.org.uk/blog/2020/07/biodiversity-and-native-woods/>

SUT?

GWRYCHOEDD

Mae gwrychoedd mynwentydd eglwysi'n gynefin pwysig, oherwydd nid yn unig y maen nhw'n darparu bwyd a lloches, maen nhw hefyd yn gweithredu fel coridorau hanfodol gyda chynefinoedd eraill, fel ffosydd, pyllau neu goetir. Mae adar yn arbennig yn gwerthfawrogi gwrychoedd brodorol am eu bod nhw'n fannau diogel i fagu rhai ifanc, i ddianc rhag ysglyfaethwyr ac i chwilio am fwyd, waeth beth yw'r bwyd hwnnw – pryfed neu hadau ac aeron: <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/advice/gardening-for-wildlife/plants-for-wildlife/garden-hedges>

Yn aml iawn mae gwrychoedd hŷn yn cynnwys digonedd o bren marw a gwasarn planhigion, sy'n gynefinoedd ar gyfer infertebratau sydd, yn eu tro, yn denu eu hysglyfaethwyr eu hunain. Os oes gennych le i blannu gwrychoedd newydd, mae gwrychoedd brodorol yn ddelfrydol, er y bydd gan lawer o eglwysi wrychoedd o rywogaethau anffordorol sydd, er hynny, o werth mawr i fywyd gwyllt: <https://shop.woodlandtrust.org.uk/hedge-starter-pack>



LAND

Coed a gwrychoedd

Mae arferion rheoli da yn hanfodol er mwyn cadw gwrych yn iach ac felly'n fuddiol i fywyd gwyllt. Mae'r rhan fwyaf o wrychoedd naill ai'n cael eu torri'n rhy aml neu'n cael eu hesgeuluso. Yna, mae amllder y torri'n penderfynu a oes ffrwythau a blodau ar gael yn y gwrych; fel arfer, eu torri bob tair blynedd neu fwy sydd fwyaf buddiol i fywyd gwyllt. Byddwch yn arbennig o siŵr i beidio torri gwrychoedd pan fydd adar yn nythu neu pan fydd bywyd gwyllt yn gaeafu yno. Mae torri â'r llaw yn eich helpu i weld a oes adar yn nythu'n hwyr yn y tymor ac yna gallwch adael y bywyd gwyllt yn llonydd. Mae Hedgelink yn cynnig cyngor defnyddiol iawn am reoli gwrychoedd, yn cynnwys 'Y Deg Awgrym Gorau ar gyfer cael Gwrych Iach': <https://hedgelink.org.uk/hedgerows/hedgerow-management-advice/>

COED

Mae gan lawer o fynwentydd eglwysi goed hynafol sydd wedi cael llonydd rhag unrhyw amaethu am ganrifoedd lawer. Yn wir, mae mynwentydd eglwysi yng Nghymru a Lloegr yn gartref i 900 o goed yw sy'n fwy na 500 o flynyddoedd oed, ac mae rhai yn llawer iawn hŷn na hynny. Mae coed hynafol fel hyn yn arbennig o werthfawr i fioamrywiaeth, am fod llawer o fywyd gwyllt a ffyngau'n byw yn eu pren – boed yn bren sy'n fyw, sy'n farw neu sy'n pydru. Gallwch ychwanegu eich coed hynafol chi i gofrestr Coed Cadw yma: <https://ati.woodlandtrust.org.uk/>

Mae Russell Ball o'r Grŵp Yw Hynafol yn cynnig y fideo hwn ar reoli eich coed yw: <https://www.youtube.com/watch?v=mMJfkhjypJw>

Ond, nid coed hynafol yw'r unig goed sydd o fudd i fywyd gwyllt, felly y neges bennaf yw cadwch goed yn ddiogel i'r cyhoedd, diogelwch adeiladau a chofebion lle bo angen, ond ceisiwch ymyrryd cyn lleied ag y bo modd. Cytunir erbyn hyn mai'r arfer gorau mae'n debyg yw gadael pren marw yn ei le a gadael i'r pren bydru'n naturiol, yn hytrach na'i dacluso. Mae gan Goed Cadw gyngor ynglŷn â beth i'w ddewis os ydych chi'n plannu coeden newydd: <https://www.woodlandtrust.org.uk/blog/2019/03/british-trees-to-plant-in-your-garden/>

Ac mae'r Ymddiriedolaeth Natur yn dweud wrthydd chi sut i wneud hynny! <https://www.wildlifetrusts.org/actions/how-plant-tree>



LAND

Coed a gwrychoedd

Gall eglwysi, fel pob grŵp cymunedol arall, gymryd rhan mewn cynlluniau plannu coed brodorol naill ai drwy'r Cyngor Coed sy'n arbennig o awyddus i weld pobl o dan 21 oed yn cymryd rhan, neu drwy Goed Cadw sy'n rhoi miloedd o goed i ysgolion a chymunedau bob blwyddyn. Os oes tir cyhoeddus sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn eich eglwys chi, neu yn y gymuned leol, beth am ystyried gwneud cais?

<https://www.woodlandtrust.org.uk/plant-trees/schools-and-communities/>

<https://treecouncil.org.uk/take-action/grants-for-trees/>

Mae gan berchnogion tir ddyletswydd i gadw coed a ffiniau mewn cyflwr da; mewn eglwysi mae'r cyfrifoldeb hwn fel arfer ar y Cyngor Plwyf Eglwysig neu gorff llywodraethu arall. Yn anffodus, mae coed o dan fygythiad gan lawer o blâu a heintiau sy'n newydd neu sydd wedi eu cyflwyno o rywle arall. Mae'n debyg mai'r mwyaf adnabyddus o'r rhain yw lladdwr yr ynn; rhai eraill sy'n achosi pryder yw Dirywiad dwys y dderwen (AOD) a Phytophthoras. Byddai mynd am dro sydyn o amgylch y fynwent bob mis neu ddau'n eich helpu i ganfod arwyddion cynnar a byddem yn argymhell asesiad proffesiynol bob pum mlynedd, neu pan fydd problemau'n codi. Mae gan y Gymdeithas Coedyddiaeth lawer o gyngor defnyddiol i berchnogion tir, yn cynnwys canllawiau cyfreithiol a chyngor am gynnal a chadw: <https://trees.org.uk/Help-Advice/Help-for-Tree-Owners>

Os byddwch chi angen gwneud unrhyw waith ar goed mwy, efallai y bydd angen i chi gael caniatâd gan eich cyngor lleol os ydych yn ardal gadwraeth neu os oes gorchymyn amddiffyn coed ar waith. Mae angen i eglwysi Eglwys Loegr gael caniatâd y gyfadran: <https://www.churchofengland.org/resources/churchcare/advice-and-guidance-church-buildings/trees>



LAND

Coed a gwrychoedd

DEFNYDD DARLLEN HIRACH AC ADNODDAU ERAILL

Mae gwefan Coed Cadw yn llawn gwybodaeth am bob agwedd ar goed: eu hadnabod, gwybodaeth am yr anifeiliaid, adar, ffyngau a chennau sy'n dibynnu arnyn nhw, cyngor am blâu coed a hyd yn oed gwe gamera i wyllo'r gweilch! <https://www.woodlandtrust.org.uk/>

Os oes gennych le i blannu coetir, efallai bod arian ar gael: <https://futureforestsnetwork.org/resources/funding/>

I ganfod arbenigwyr addas, gwelwch y Gymdeithas Coedyddiaeth: <https://trees.org.uk/>

Mae iTree yn rhaglen sy'n dadansoddi coedwigoedd trefol a gwledig ac yn asesu buddion. Mae wedi cael ei ddefnyddio i amcangyfrif gwerth yr ecosystem mewn cytreff amrywiol yn y DU:

<https://www.itreetools.org/>

<https://www.itreetools.org/support/resources-overview/i-tree-international/reports-nation>

LLYFRAU

Mae Peter Wohlleben yn rhedeg coetir ecogyfeillgar yn yr Almaen. Mae'n ysgrifennu am ymchwil gwyddonol sy'n torri tir newydd yn ei lyfrau hynod ddiddorol, wedi eu cyhoeddi gan lyfrau Greystone.

- *The Hidden Life of Trees*, 2016 (clawr meddal), 2018 (clawr caled gyda lluniau)
- *The Heartbeat of Trees*, 2021

ASTUDIAETHAU ACHOS

Mae aelodau o Eglwys St Lawrence, Hungerford wedi canfod bod plannu coed gyda'r gymuned leol yn hwyl ac yn ffordd wych o ddod i adnabod pobl. Gwelwch y papur ar wahân.